NEWYDDION DIWEDDARAF

Ysgol y Gymraeg Gaeaf/Gwanwyn 2008

1883-2008 125 Years Blynedd

Prifysgol Caerdydd / Cardiff University

Lansio Chwe Llyfr

Cynhaliwyd derbyniad nos Lun 10fed Rhagfyr, i ddathlu cynnyrch diweddaraf y staff, yng nghwmni Rhodri Glyn Thomas AC, Gweinidog dros Dreftadaeth.

Yr awduron, eu cyhoeddiadau a'r Gweinidog dros Dreftadaeth.



Gwaith Rhys Goch Eryri [Cyfres Beirdd yr Uchelwyr], gol. **Dylan Foster Evans** (Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru)



Glyndŵr a Gobaith y Genedl, **E. Wyn James** (Cymdeithas Lyfrau Ceredigion)

Bardd Pengwern: Detholiad o Gerddi Jonathan Hughes, Llangollen (1721-1805), gol. **Siwan Rosser** (Cyhoeddiadau Barddas)



Language and Governance, gol. **Colin H. Williams** (Gwasg Prifysgol Cymru)

Linguistic Minorities in Democratic Context, **Colin H. Williams** (Palgrave Macmillan)



Language and the City, **Diarmait Mac Giolla Chríost** (Palgrave Macmillan)

Dwy Wefan Newydd

www.rhyddiaithganoloesol.caerdydd.ac.uk

Gwefan a noddwyd gan yr AHRC sy'n cyflwyno corff chwiliadwy o ryddiaith yr Oesoedd Canol. Gellwch weld cynnwys 28 o lawysgrifau yma: rhyw 1.8 miliwn o eiriau. Mae'r llawysgrifau'n ymgorffori dros 100 o destunau ar wahanol feysydd. Adnodd amhrisiadwy ar gyfer ymchwil pellach i iaith, llenyddiaeth, hanes a diwylliant y cyfnod. Arweinydd y prosiect oedd yr Athro Peter Wynn Thomas a'r ymchwilwyr oedd y Dr Diana Luft a'r Dr Mark Smith.

www.e-gymraeg.org/cronfabaledi

Gwefan sy'n rhoi mynediad i fynegai cyfrifiadurol i faledi argraffedig y 18fed ganrif. Fe'i datblygwyd ar y cyd rhwng y Dr E Wyn James yma yng Nghaerdydd a'r Athro Peredur Lynch o Brifysgol Bangor, ac fe'i noddwyd gan y Bwrdd Gwybodau Celtaidd. Ceir yma drysorfa o wybodaeth at ddant y beirniad llên, yr ieithydd, y cerddor a'r hanesydd.

Ysgoloriaethau Prifysgol Caerdydd

- Llongyfarchiadau i Hanna Hopwood, Lisa Williams, Catrin Fflur Jones a Caryl Pritchard ar ennill Ysgoloriaethau Prifysgol Caerdydd 2007—gwerth £3,000 yr un. Fe'u dyfernir i'r ymgeiswyr a chanddynt y canlyniadau gorau yn eu harholiadau Safon Uwch. Rydym yn ymfalchïo yn llwyddiant y myfyrwyr hyn ac yn dymuno'n dda iddynt yma yn y brifddinas. Bydd pedair ysgoloriaeth debyg ar gael yn 2008.
- Llongyfarchiadau hefyd i Llŷr Lewis a Huw Foulkes ar ennill gwobrau o £400 yr un am berfformiad academaidd arbennig yn sesiwn 2006/07. Mae'r ddau yn weithgar dros ben ym mywyd Cymraeg y Brifysgol—Llŷr yw Llywydd y Gym Gym (Cymdeithas Gymraeg y myfyrwyr), a Huw yw arweinydd Aelwyd y Waun Ddyfal (gweler trosodd).

Ysgoloriaethau Ysgol y Gymraeg

- Dyfarnwyd 7 ysgoloriaeth o £400 yr un y llynedd i fyfyrwyr is-raddedig. Fe'u dyfernir ar sail rhagoriaeth mewn papur arholiad a osodir gan yr Ysgol. Gofynnir i ymgeiswyr sydd am wneud cais eleni anfon eu henwau i Ysgol y Gymraeg erbyn **12 Chwefror 2008.** Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Dr Siwan Rosser: **rossersm@caerdydd.ac.uk**
- Bydd ysgoloriaethau hael o hyd at £2,000 yr un ar gael ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Dr Diarmait Mac Giolla Chríost: **macgiollachriostd@caerdydd.ac.uk**

Mae'r Gymraeg yng Nghaerdydd yn 125 mlwydd oed eleni. Gwyliwch ein gwefan i gael rhagor o fanylion am y dathlu!

Aelwyd y Waun Ddyfal

Sefydlwyd Aelwyd y Waun Ddyfal yn 2006; erbyn hyn mae ganddi dros 100 o aelodau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fyfyrwyr (a llawer yn fyfyrwyr yn Ysgol y Gymraeg) er bod croeso i unrhyw un rhwng 14 a 25 oed ymuno. Bu'r Aelwyd yn brysur dros ben y llynedd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd am y tro cyntaf a chael llwyddiant arbennig yn y cystadlaethau corawl, dawnsio a llenyddol. Llwyddiant diweddaraf yr Aelwyd oedd cipio'r wobr gyntaf yn y brif gystadleuaeth gorawl yn yr Ŵyl Gerdd Dant yn ogystal â derbyn y drydedd wobr yng nghystadleuaeth y Côr Alawon Gwerin Agored. Mae'r Aelwyd yn cynnal nifer o weithgareddau cymdeithasol ac mae Côr yr Aelwyd yn cystadlu'n gyson. Bu'r Aelwyd yn ffilmio ar gyfer rhaglen arbennig yn y gyfres 'Dechrau Canu, Dechrau Canmol' dros y Nadolig, ac mae'r calendr ar gyfer 2008 yn prysur lenwi!

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r Aelwyd, ewch i'r wefan **www.waunddyfal.co.uk.** Mae Côr yr Aelwyd yn ymarfer bob nos Iau am 6.30pm yng nghapel yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet Street. Dewch yn llu!

Y Gynhadledd Faledi Ryngwladol

DIFEIRWCH
PECHADUR;
A dygun Erfyniad. am
drugared ar y don a elwyr
yrraf.
Carol Duwiol, Plethie-
dig, a ſynhwyrol.
2

Tro Cymru yw hi i groesawu'r Gynhadledd Faledi Ryngwladol eleni, ac fe'i cynhelir yma yn Ysgol y Gymraeg o **nos Lun, 28 Gorffennaf** hyd **brynhawn Sadwrn, 2 Awst 2008.**

Mae'r Ysgol yn arbenigo ar ymchwil i faledi a chanu poblogaidd, ac yn cyfrannu'n helaeth i astudiaethau gwerin yng Nghymru – nid lleiaf trwy'r radd MA mewn Astudiaethau Gwerin a ddysgir ar y cyd rhwng yr Ysgol a'r Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan.

Am ragor o wybodaeth ewch at ein gwefan a dilyn y ddolen, neu e-bostiwch **Baledi@caerdydd.ac.uk**

Llun o faled oddi ar wefan Baledi Cymru (gol. Dr E Wyn James)

Llenyddiaeth Plant

Mae Ysgol y Gymraeg yn torri tir newydd drwy gynnig modiwl is-raddedig newydd ar Lenyddiaeth Plant. Er bod arwyr megis Barti Ddu a Luned Bengoch yn agos at galonnau sawl un ohonom, ychydig o sylw beirniadol a gafodd llenyddiaeth plant fel pwnc academaidd yng Nghymru. Bwriad y Dr Siwan Rosser yw ceisio unioni'r cam hwnnw drwy archwilio swyddogaeth ac arwyddocâd llenyddiaeth plant yn ei chyd-destun hanesyddol, diwylliannol a theoretig ar y modiwl newydd arloesol hwn.

PhD Ysgrifennu Creadigol

Cynllun newydd sbon (llawn neu ran-amser) ar gyfer myfyrwyr a chanddynt ddiddordeb mewn ymestyn eu sgiliau ysgrifennu creadigol. Cyfle i weithio gyda rhai o lenorion amlycaf y brifddinas. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Athro Sioned Davies: **daviessm@caerdydd.ac.uk**

Dysgu Cymraeg dros yr haf

Denwyd myfyrwyr o bedwar ban byd i'n cwrs Cymraeg ail-iaith y llynedd—o Gymru, Lloegr, Ariannin, yr Almaen, America, Ffindir, Gwlad Pwyl, De Affrica, Sbaen, yr Eidal ac Iwerddon. Ymysg y rhain yr oedd nifer o'n myfyrwyr ail-iaith, blwyddyn gyntaf. Canmolwyd safon uchel y dysgu gan bawb. Os am gofrestru ar ein Cwrs Haf eleni (30 Mehefin – 22 Awst), cysylltwch â'n Canolfan Cymraeg i Oedolion: **www.caerdydd.ac.uk/cymraeg/canolfan**

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag

Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Caerdydd CF10 3EU
Ffôn: **029 2087 4843**
E-bost: **cymraeg@caerdydd.ac.uk**
Gwefan: **www.caerdydd.ac.uk/cymraeg**

1883-2008 125 YEARS BLYNEDD

PRIFYSGOL CAERDYDD
CARDIFF UNIVERSITY